# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD LLUN, 12FED MEHEFIN, 2023**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

*** NODER ***

***I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Gwener, 2 Mehefin 2023)

## PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL

**AELODAETH (15)**

## Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Alan Jones Evans | Annwen Hughes |
| Gareth Tudor Jones | Linda Ann Jones |
| Edgar Wyn Owen | Gwynfor Owen |
| Rheinallt Puw | Arwyn Herald Roberts |
| Huw Rowlands | Elfed Williams |

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Gareth Williams | Angela Russell |
| Eryl Jones-Williams | Anwen J. Davies |
| John Brynmor Hughes | |

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2023 /24

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2023 / 24

## 3. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 6. COFNODION 5 - 7

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 5ed Rhagfyr fel rhai cywir

## 7. COFNODION IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 8 - 36

Cyflwyno, er gwybodaeth, cofnodion yr Is Bwyllgor Trwyddedu Cyffredinnol a gynhaliwyd ar y dyddiau canlynol:

1. 13 Mawrth 2023
2. 10 Chwefror 2023
3. 23 Ionawr 2023
4. 14 Rhagfyr 2022
5. 23 Tachwedd 2022
6. 14 Tachwedd 2022
7. 08 Tachwedd 2022

## 8. FFIOEDD ARFAETHEDIG TRWYDDEDAU TACSIS 2023/24 37 - 40

I ystyried cymeradwyo'r cynnig i godi'r ffioedd i'r lefel a argymhellir ; yn ddarostyngedig i yn ymgynghoriad gyda'r diwydiant tacsi ac ymgynghoriad drwy rybudd cyhoeddus.

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**
**05-12-22**

**Presenoldeb: Cadeirydd Cyng. Annwen Hughes**
**Is-gadeirydd Cyng. Elfed Williams**

Cynghorwyr: Anwen Davies, Alan Jones Evans, Eryl Jones-Williams, Gareth Tudor Jones, Linda Ann Jones, Edgar Wyn Owen, Gwynfor Owen, Arwyn Herald Roberts, Huw Rowlands, Angela Russell a Gareth Williams

**Swyddogion:** Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr John Brynmor Hughes a Rheinallt Puw

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd 24 Hydref 2022 fel rhai cywir

**5. COFNODION IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU**

Derbyniwyd er gwybodaeth gofnodion yr Is-bwyllgorau Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd 4ydd Hydref 2022

**6. YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS AR UCHAFSWM PRISIAU TEITHIAU CERBYDAU TACSI HACNI**

a) Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Trwyddedu yn argymell codi uchaf brisiau teithiau cerbydau hacni yn y Sir. Atgoffwyd yr Aelodau, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 sydd yn gosod dyletswyddau rheoleiddio ar yr Awdurdod Trwyddedu mewn perthynas â gweithredu uchaf bris a all gael ei godi ar y cyhoedd wrth deithio mewn cerbydau hacni oddi fewn i'r Sir, mae'n ofynnol fod unrhyw gais am newid yn cael ei gyflwyno gan y diwydiant. Cadarnhawyd bod 5 cais diweddar wedi eu derbyn gan berchnogion cwmnïau tacsi i adolygu'r prisiau a bod y prisiau hyn ar gyfer cerbydau hacni yn unig ac nid cerbydau preifat. Mewn cyfarfod ar y 24ain o Hydref, cyflwynwyd argymhellion gan yr Awdurdod Trwyddedu i

gynyddu rhai prisiau. Penderfynodd y Pwyllgor gymeradwyo'r argymhellion hynny ynghyd a chynnal ymgynghoriad cyhoeddus am 14 diwrnod. Adroddwyd bod gohebiaeth wedi ei gyflwyno i'r diwydiant tacsi cyn i'r ymgynghoriad ddechrau yn swyddogol gan roi cyfle i'r diwydiant ystyried y cynigion. Derbyniwyd pum gwrthwynebiad gyda sylwadau gan gynrychiolaeth o'r diwydiant - ni dderbyniwyd sylwadau gan y cyhoedd. Eglurwyd, oherwydd bod gwrthwynebiadau i'r cynigion wedi ei derbyn bod rhaid ail gyflwyno argymhellion fel y gall y Pwyllgor roi ystyriaeth ofalus i'r mater cyn dod i benderfyniad terfynol.

Cyfeiriwyd at y ffactorau hynny sydd wedi effeithio busnesau tacsi yn ddiweddar (cyfnod clo dros gyfnod covid 19, cynnydd sylweddol yng nghostau tanwydd ynghyd a chynnydd sylweddol mewn chwyddiant) gan nodi bod rhain yn ffactorau sydd yn effeithio pawb. Nodwyd pwysigrwydd cloriannu effaith y sefyllfa bresennol gan sicrhau tegwch i'r diwydiant ac i ddefnyddwyr tacsi. Ategwyd bod rhaid cynlluniau cymunedol, gyda chefnogaeth grantiau, drwy gyd-weithio gyda hwb cymdeithasol yn cynnig gwasanaeth cludiant i ddefnyddwyr bregus am ddim gan fod prisiau tacsi yn rhy ddrud. Gwelid hyn yn ardal Penygroes a Bethesda

Er yn derbyn sylwadau'r diwydiant, roedd yr Uned Trwyddedu yn argymell parhau gyda'r argymhellion gwreiddiol ond yn derbyn y sylw i ddileu'r cynnig o greu tariff ychwanegol ar gyfer teithiau mewn bws mini lle mae rhwng 5 ac 8 o deithwyr. Ystyriwyd bod y cynnig yma, yn unol â sylwadau unfrydol y diwydiant yn agored i'w gamddefnyddio ac nad oedd gwerth iddo.

b) Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan Aelodau:

- Bod yr adroddiad yn glir a chytbwys
- Bod rhaid gwarchod y diwydiant ond ar y llaw arall ystyried effaith ar y defnyddwyr
- Croesawu'r ymgynghoriad a pharodrwydd y Pwyllgor i drafod y sylwadau
- Anodd cael gwasanaeth yn Nwyfor – gwasanaeth bysus yn lleihau a chostau tacsis y cynyddu

c) Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â bod y sylwadau a dderbyniwyd yn adlewyrchu materion trefol a gwledig, nodwyd bod cymysgedd o sylwadau wedi eu derbyn. Mewn ymateb i gwestiwn atodol ynglŷn ag ymatebion dienw, nodwyd bod enwau a chyfeiriadau personol e-byst yr ymatebwyr wedi eu dileu fel modd o warchod eu preifatrwydd.

Mewn ymateb i sylw bod rhai cwmnïau yn osgoi siwrneiau byr, cadarnhawyd bod costau'r daith yn dechrau o'r amser y bydd y defnyddiwr yn cael ei godi ac felly yn derbyn bod rhai cwmnïau yn osgoi teithiau i gasglu cwsmeriaid oherwydd bod y daith yn hir a'r costau cludo yn annigonol i dalu costau'r daith. Ategwyd bod amodau trwyddedu yn nodi bod rhaid casglu defnyddwyr os yw wedi ei gytuno dros y ffôn.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chludiant ar gyfer pobl fregus (gan gyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol ac apwyntiadau ysbytai), nodwyd nad oedd yr uchaf symiau hyn yn berthnasol i'r teithiau hynny - teithiau o'r fath wedi eu trefnu ymlaen llaw drwy gytundeb.

Mewn ymateb i gwestiwn am faint y diwydiant yng Ngwynedd, nodwyd bod oddeutu 500 o yrwyr tacsi yn y Sir yn defnyddio oddeutu 400 o gerbydau gydag amrywiaeth o un gyrrwr yn rhedeg un car, cwmnïau bach gyda 3-5 gyrrwr a thri chwmni 'mawr'. (dau ym Mangor ac un ym Mhenygroes). Mewn ymateb i sylw bod gyrwyr yn derbyn llai na'r isafswm cyflog, nodwyd bod hyn yn ddibynnol ar deithiau byr yn unig. Ategwyd bod nifer yn gwneud cyfuniad o deithiau sydd yn gwneud mwy o arian a bod rhai o'r cwmnïau gyda chytundebau gyda'r Adran Addysg, Ysbytai a

Gwasanaethau Cymdeithasol sydd yn derbyn costau sydd wedi eu cytuno gyda’r cwmni ymlaen llaw. Amlygwyd bod y costau hyn wedi cynyddu yn ddiweddar mewn ymateb i gynnydd mewn costau byw.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â nifer ceir ar gyfer ceir ar gyfer cadair olwyn, nodwyd, yn unol â gofynion y polisi cyfredol, bod rhaid i 1 o bob 7 car mewn cwmni fod yn gar addas ar gyfer cadair olwyn. Er yn anodd gorfodi mwy, amlygwyd bod nifer yn darparu’r gwasanaeth penodol yma gyda chytundebau gyda’r gwasanaethau cymdeithasol ac addysg yn gerbydau mawr, addas. Ategwyd y bydd y polisi yn cael ei adolygu yn 2023.

Mewn ymateb i gynnig am ddarparu ceir trydan a safleoedd gwefru ceir trydan ar gyfer y diwydiant, nodwyd nad oedd Gwynedd wedi manteisio ar dreialu cynllun peilot yng Ngwynedd gan nad oedd y gyfundrefn gwefru yn bodoli ar gyfer darparu gwasanaeth a gorfodi’r diwydiant i’w ddefnyddio. Ategwyd bod angen gwella’r ddarpariaeth yn gyntaf ac ystyried y rhwystrau sydd i’w goresgyn cyn annog darpariaeth eang o geir trydan.

Cynigwyd ac eiliwyd cymeradwyo’r cynnig gan ddileu gosod tariff gwahanol ar gyfer teithiau mini bws lle mae rhwng 5 ac 8 o deithwyr.

**PENDERFYNWYD:**

**Cymeradwyo'r cynnig i godi'r uchafswm pris yn unol â'r argymhellion, yn ddarostyngedig i dynnu'n ôl yr argymhelliad ar gyfer tariff ychwanegol ar gyfer teithiau mewn bws mini lle mae rhwng 5 ac 8 o deithwyr.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:10 a daeth i ben am 11:05

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 13-03-23**

**Yn bresennol**:

**Cynghorwyr:** Y Cynghorydd Annwen Hughes (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Gwynfor Owen a Gareth Williams

**Swyddogion:** Sïon Huws (Uwch Gyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

**5. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr A**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nod o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol ac adroddiad yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA)

Roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell i'r Is-bwyllgor ganiatáu y cais. Roedd trwydded yrru'r ymgeisydd yn drwydded lân.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â diffyg yr ymgeisydd i nodi ei golfan ar y ffurflen gais ac nad oedd cyfeiriad at hyn yn yr adroddiad (er bod Canllawiau Cenedlaethol IOL yn nodi hyn fel mater difrifol), nododd y Rheolwr Trwyddedu bod ymgeiswyr o dro i dro yn camddeall yr hyn sydd angen ei nodi ar y ffurflen gais gan ystyried mai collfarnau / arnodiadau gyrru neu gollfarnau diweddar sydd angen eu cofnodi. Ategwyd, gyda chynnydd yn y nifer o geisiadau sydd yn cael eu cyflwyno ar y wefan, bod llai o gyfle i ymgeiswyr holi swyddogion, ac felly yn rhoi cyfle i'r ymgeisydd ymhelaethu ar y mater yn yr is-bwyllgor.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais gan roi gwybodaeth am gefndir y gollfarn a'i amgylchiadau personol. Nododd ei ddymuniad o gael swydd y byddai'n rhoi incwm ychwanegol iddo a swydd fyddai'n codi hyder yn ei allu i gyfathrebu gyda'r cyhoedd. Ategodd nad oedd wedi cynnwys y gollfarn ar y ffurflen gais gan fod cyfnod o dair blynedd wedi mynd heibio ac roedd dan yr argraff nad oedd angen datgelu collfarn hanesyddol.

**PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS ac adroddiad Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau
- sylwadau ar lafar gan yr ymgeisydd

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol

**Cefndir**

Yn Chwefror 2014 cafwyd yr ymgeisydd yn euog o Ddinistrio neu Ddifrodi eiddo (gwerth yr eiddo £5000 neu lai o dan Ddeddf Difrod Troseddol 1971 yn unig), yn groes i Ddeddf Difrod Troseddol 1971, a.1(1). Bu iddo dderbyn 'rhyddhad amodol' ynghyd a gorchymyn i dalu costau £85, iawndal o £30 a chostau dioddefwr o £15.

**CYMALAU PERTHNASOL Y POLISI**

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol. Mae paragraff 2.4 yn nodi pan fydd ymgeisydd wedi'i gael yn euog o drosedd(au) neu fod mater arall/materion eraill i'w (h)ystyried yng nghyswllt hynny, ni chaiff y cyngor adolygu rhinweddau'r gollfarn honno na'r mater arall hwnnw.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae paragraff 6.0 o’r Polisi yn cyfarch troseddau o drais. Ym mharagraff 6.1 nodir, gan fod gyrwyr trwyddedig yn dod i gysylltiad agos gyda'r cyhoedd yn rheolaidd y byddai is-bwyllgor yn mabwysiadu safbwynt cadarn at y rhai hynny sydd â throseddau yn ymwneud a thrais.

Mae paragraff 6.5 o’r Polisi yn nodi y bydd cais am drwydded fel rheol yn cael ei wrthod os oes gan yr ymgeisydd fater i’w ystyried am ymosodiad sy’n achosi gwir niwed corfforol o dan Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986 sydd yn llai na 3 blynedd cyn dyddiad y cais.

**CASGLIADAU**

Ystyriodd yr Is-bwyllgor esboniad yr ymgeisydd o’r amgylchiadau a arweiniodd at gollfarn 2014 ynghyd ag argymhelliad y swyddog i ganiatáu y cais.

Daeth yr Is-bwyllgor i gasgliad bod collfarn 2014 yn drosedd o drais i bwrpas y Polisi a bod digon o amser wedi mynd heibio i’r trothwy tair blynedd ers i’r ymgeisydd gael ei ddyfarnu'n euog. Ystyriwyd esboniadau’r ymgeisydd a’r rhesymau dros ei ymddygiad yn 2014 gan dderbyn ei fod eisiau rhoi'r mater tu cefn iddo a symud ymlaen. Wedi ystyried natur y drosedd, y ddedfryd a roddwyd a’r ffaith nad oedd unrhyw hanes pellach o droseddu, nid oedd rheswm dros beidio dilyn polisi’r awdurdod yn yr achos yma a chaniatáu’r cais.

Penderfynodd yr Is-bwyllgor o blaid caniatáu y cais a bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai’r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i’r ymgeisydd.

Gwnaed cais i’r Uned Drwyddedu adolygu’r ffurflen gais a nodi’n glir bod angen datgelu gwybodaeth am bob collfarn, boed yn hanesyddol neu beidio.

Dechreuodd y cyfarfod am 14 :00 a daeth i ben 14 :25

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 10-02-23**

**Yn bresennol**:

**Cynghorwyr:** Y Cynghorydd Annwen Hughes (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Linda Ann Jones ac Elfed Williams

**Swyddogion:** Sïon Huws (Uwch Gyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Delyth Jones (Hyfforddai Gwrachod y Cyhoedd), a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

1. **YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

3. **MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

4. **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

5. **CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr A**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nod o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais

yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol ac adroddiad yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA)

Roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell i'r Is-bwyllgor ganiatáu y cais.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais gan roi gwybodaeth am gefndir y gollfarn ynghyd a'r pwyntiau cosb ar ei drwydded a'i amgylchiadau personol.

**PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS ac adroddiad Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau
- sylwadau ar lafar gan yr ymgeisydd

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol

**Cefndir**

Yn Ionawr 1988 cafwyd yr ymgeisydd yn euog o Ymosodiad gan Achosi Gwir Niwed Corfforol (ABH) yn groes i Ddeddf Troseddau yn Erbyn y Person 1861 A.47.

Yn Chwefror 2022 derbyniodd yr ymgeisydd chwe phwynt cosb arnodedig ar ei drwydded am Dorri Gofynion (Breach of Requirements) rheoli cerbyd, ffôn symudol ac ati.

**CYMALAU PERTHNASOL Y POLISI**

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol. Mae paragraff 2.4 yn nodi pan fydd ymgeisydd wedi'i gael yn euog o drosedd(au) neu fod mater arall/materion eraill i'w (h)ystyried yng nghyswllt hynny, ni chaiff y cyngor adolygu rhinweddau'r gollfarn honno na'r mater arall hwnnw.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae paragraff 6.0 o'r Polisi yn cyfarch troseddau o drais. Ym mharagraff 6.1 nodir, gan fod gyrwyr trwyddedig yn dod i gysylltiad agos gyda'r cyhoedd yn rheolaidd y byddai is-bwyllgor yn mabwysiadu safbwynt cadarn at y rhai hynny sydd â throseddau yn ymwneud a thrais.

Mae paragraff 6.5 o'r Polisi yn nodi y bydd cais am drwydded fel rheol yn cael ei wrthod os oes gan yr ymgeisydd fater i'w ystyried am ymosodiad sy'n achosi gwir niwed corfforol o dan Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986 sydd yn llai na 3 blynedd cyn dyddiad y cais.

Mae paragraff 6.6 o’r Polisi yn nodi y bydd cais, fel arfer yn cael ei wrthod os oes mwy nag un gollfarn am drosedd o natur dreisgar yn erbyn yr ymgeisydd a hynny o fewn y 10 mlynedd ddiwethaf.

Mae rhan 12 o’r Polisi yn ymwneud â chollfarnau moduro gyda pharagraff 12.3 yn nodi y bydd cais yn cael ei wrthod os oes collfarn yn erbyn yr ymgeisydd ac nad yw wedi bod yn rhydd rhag collfarn am 6 mis o leiaf.

**CASGLIADAU**

Ystyriodd yr Is-bwyllgor esboniad yr ymgeisydd o’r amgylchiadau a arweiniodd at gollfarn 1988 a 2022 ynghyd ag argymhelliad y swyddog i ganiatáu y cais.

Daeth yr Is-bwyllgor i gasgliad bod collfarn 1988 yn drosedd o drais i bwrpas y Polisi a bod digon o amser wedi mynd heibio i’r trothwy tair blynedd ers i’r ymgeisydd gael ei ddyfarnu'n euog. Ystyriwyd esboniadau’r ymgeisydd a’r rhesymau dros ei ymddygiad yn 1988 gan dderbyn bod ei amgylchiadau yn wahanol iawn erbyn hyn. Roedd yr Is-bwyllgor hefyd yn falch o weld bod yr ymgeisydd wedi cynnwys gwybodaeth am y golfan ar ei ffurflen gais.

Wrth ystyried amgylchiadau’r drosedd foduro, a bod yr ymgeisydd wedi cyfaddef defnyddio ei ffôn (mewn ystâd ddiwydiannol) wrth yr Heddlu mewn ymateb i alwad yr oedd yn ei ystyried yn un o frys, amlygwyd bod defnyddio / gafael mewn ffôn wrth yrru yn fater difrifol a bellach yn anghyfreithlon. Serch hynny, derbyniwyd esboniad yr ymgeisydd o amgylchiadau penodol y digwyddiad gyda’r Is-bwyllgor yn falch o nodi bod yr ymgeisydd yn derbyn cyfrifoldeb am y weithred ac wedi cyfaddef yn onest ac agored o fod wedi defnyddio ei ffôn.

O ystyried amgylchiadau’r drosedd, roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon nad oedd unrhyw beth i awgrymu y byddai’r ymgeisydd yn peryglu cwsmeriaid wrth yrru. Wedi pwyso a mesur yr holl ffactorau yn ofalus penderfynodd yr Is-bwyllgor o blaid caniatáu y cais a bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai’r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i’r ymgeisydd.

**6. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr B**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i’r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda’r nod o ddiogelu’r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr B am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i’r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â’r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol, adroddiad yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA)

Roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell i'r Is-bwyllgor wrthod y cais.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais gan roi gwybodaeth am gefndir y collfarnau ar ei gofnod DBS a'i amgylchiadau personol. Roedd ei drwydded yrru yn drwydded lân.

**PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- 'Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS ac adroddiad Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau
- sylwadau ar lafar gan yr ymgeisydd

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol

**Cefndir**

Yn Chwefror 2022 cafwyd yr ymgeisydd yn euog ar ddau gyfrif : Ymosodiad gan achosi gwir niwed corfforol (ABH) yn groes i Ddeddf Troseddau yn Erbyn y Person 1861 A.47 ac Affräe yn groes i Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986 A.3 - derbyniodd yr ymgeisydd orchymyn cosb gymunedol am dri mis

Yn Awst 2012 cafwyd yr ymgeisydd yn euog o Ymosodiad gan achosi gwir niwed corfforol (ABH) yn groes i Ddeddf Troseddau yn Erbyn y Person 1861 A.47 - derbyniodd yr ymgeisydd ddedfryd o 18 mis yn y carchar.

**CYMALAU PERTHNASOL Y POLISI**

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol. Mae paragraff 2.4 yn nodi pan fydd ymgeisydd wedi'i gael yn euog o drosedd(au) neu fod mater arall/materion eraill i'w (h)ystyried yng nghyswllt hynny, ni chaiff y cyngor adolygu rhinweddau'r gollfarn honno na'r mater arall hwnnw.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae paragraff 6.0 o'r Polisi yn cyfarch troseddau o drais. Ym mharagraff 6.1 nodir, gan fod gyrwyr trwyddedig yn dod i gysylltiad agos gyda'r cyhoedd yn rheolaidd y byddai is-bwyllgor yn mabwysiadu safbwynt cadarn at y rhai hynny sydd â throseddau yn ymwneud a thrais.

Mae paragraff 6.5 o'r Polisi yn nodi y bydd cais am drwydded fel rheol yn cael ei wrthod os oes gan yr ymgeisydd fater i'w ystyried am ymosodiad sy'n achosi gwir niwed corfforol o dan Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986 sydd yn llai na 3 blynedd cyn dyddiad y cais.

Mae paragraff 6.6 o'r Polisi yn nodi y bydd cais, fel arfer yn cael ei wrthod os oes mwy nag un gollfarn am drosedd o natur dreisgar yn erbyn yr ymgeisydd a hynny o fewn y 10 mlynedd ddiwethaf.

**CASGLIADAU**

Ystyriodd yr Is-bwyllgor esboniad yr ymgeisydd o'r amgylchiadau a arweiniodd at gollfarn 2002 a 2012 ynghyd ag argymhelliad y swyddog i wrthod y cais. Daeth yr Is-bwyllgor i gasgliad bod collfarn 2002 yn drosedd o drais i bwrpas y Polisi a bod digon o amser wedi mynd heibio i'r trothwy tair blynedd ers i'r ymgeisydd gael ei ddyfarnu'n euog. Ystyriwyd esboniadau'r ymgeisydd a'r rhesymau dros ei ymddygiad yn 2002. Daeth yr Is-bwyllgor i gasgliad bod collfarn 2012 hefyd yn gollfarn am drosedd dreisgar neu drosedd debyg a bod ychydig dros 10 mlynedd wedi mynd heibio ers y drosedd honno. Ystyriwyd esboniadau'r ymgeisydd a'r rhesymau dros ei ymddygiad yn 2012. Er nad oedd gan yr ymgeisydd unrhyw hanes diweddar o aildroseddu, rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth ofalus a difrifol iawn i'r ffaith bod y ddwy drosedd yn rhai difrifol o drais, a bod yr ymgeisydd wedi cael dedfryd o 18 mis o garchar am gollfarn 2012.

Derbyniwyd eglurhad yr ymgeisydd bod ei amgylchiadau bellach yn wahanol iawn a'i fod wedi llwyddo i drawsnewid ei fywyd. Roedd wedi priodi, cael plant a gyda swydd gyfrifol a chyson; yn weithgar iawn yn ei gymuned leol ac yn gwneud gwaith fel hyfforddwr pêl-droed.

Wedi pwyso a mesur yr holl ffactorau yn ofalus penderfynodd yr Is-bwyllgor drwy benderfyniad mwyafrif, bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat, er yn dymuno pwysleisio y gall unrhyw broblem yn y dyfodol arwain at gymryd camau i ddiddymu'r drwydded.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd

Dechreuodd y cyfarfod am 11 :45 a daeth i ben 13 :00

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 23-01-23**

**Yn bresennol**:

**Cynghorwyr:** Y Cynghorydd Annwen Hughes (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Edgar Owen a John Brynmor Hughes

**Swyddogion:** Sïon Huws (Uwch Gyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

**5. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr A**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nod o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol, adroddiad yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA)

Roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell i'r Is-bwyllgor ganiatáu y cais.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais gan roi gwybodaeth am gefndir y pwyntiau cosb ar ei drwydded a'i amgylchiadau personol.

**PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS ac adroddiad Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau
- sylwadau ar lafar gan yr ymgeisydd

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol

**Cefndir**

Yn Medi 2022 derbyniodd yr ymgeisydd 6 pwynt cosb arnodedig ar ei drwydded am Dorri Gofynion (Breach of Requirements) rheoli cerbyd, ffôn symudol ac ati.

**CYMALAU PERTHNASOL Y POLISI**

Mae rhan 12 o'r Polisi yn ymwneud â chollfarnau moduro gyda pharagraff 12.3 yn nodi y bydd cais yn cael ei wrthod os oes collfarn yn erbyn yr ymgeisydd ac nad yw wedi bod yn rhydd rhag collfarn am 6 mis o leiaf.

Mae paragraff 13.3 yn nodi y "Gallai mwy nag un gollfarn am fân drosedd traffig neu fater arall i'w ystyried arwain at wrthod cais, yn enwedig os oes sawl collfarn neu faterion eraill i'w hystyried ar gyfer yr un drosedd, e.e. goryrru. Mae'n bosibl y caiff gyrrwr trwyddedig ei gyfeirio at sylw'r Pwyllgor Trwyddedu os oes mwy na dwy drosedd ac/neu gyfanswm o 6 phwynt ar ei drwydded"

**CASGLIADAU**

Ystyriodd yr Is-bwyllgor esboniad yr ymgeisydd o'r amgylchiadau a arweiniodd at y gollfarn ynghyd ag argymhelliad y swyddogion o ganiatáu y cais. Er mai codi ffôn oedd wedi disgyn a wnaeth yr ymgeisydd, amlygwyd bod defnyddio / gafael mewn ffôn wrth yrru yn fater difrifol a bellach yn anghyfreithlon. Serch hynny, derbyniwyd esboniad yr ymgeisydd o amgylchiadau penodol y digwyddiad yma.

Roedd yr Is-bwyllgor yn falch o nodi bod yr ymgeisydd yn derbyn cyfrifoldeb am y weithred ac wedi cyfaddef yn onest ac agored o fod wedi gwneud camgymeriad. Roedd yr Is-bwyllgor hefyd yn falch o nodi ei fod wedi hysbysu Awdurdod Trwyddedu Ynys Môn o'r digwyddiad.

O ystyried amgylchiadau'r drosedd, roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon nad oedd unrhyw beth i awgrymu y byddai'r ymgeisydd yn peryglu cwsmeriaid wrth yrru. Wedi pwyso a mesur yr holl ffactorau yn ofalus penderfynodd yr Is-bwyllgor o blaid caniatáu y cais a bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd.

Dechreuodd y cyfarfod am 2 :00pm a daeth i ben 2 :45pm

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 14-12-2022**

**Yn bresennol**:

**Cynghorwyr:** Y Cynghorydd Annwen Hughes (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Gareth Jones a Gwynfor Owen

**Swyddogion:** Sïon Huws (Uwch Gyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

**5. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr A**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nod o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais

yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol, adroddiad yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA)

Roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell i'r Is-bwyllgor ganiatáu y cais.

Mewn ymateb i'r adroddiad, gofynnwyd i'r ymgeisydd pam roedd wedi nodi 'na' ar ei ffurflen gais mewn ateb i gwestiwn oedd yn holi os oedd ganddo unrhyw gollfarnau, blaenorol, rhybuddion neu unrhyw gyhuddiadau yn yr arfaeth. Nododd yr ymgeisydd nad oedd wedi ystyried bod digwyddiad 2007 yn 'gofnod troseddol' ac roedd yn ymddiheuro dros gamddeall y cwestiwn.

Mewn ymateb i ddiffyg cyfeiriad at y collfarnau moduro yn yr adroddiad oedd wedi arwain at dderbyn 6 pwynt cosb, nododd y Swyddog Trwyddedu bod 6 pwynt yn cael ei ystyried fel mater ymylol er yn derbyn bod paragraff 13.3 o'r polisi yn nodi 6 pwynt fel cyfanswm disgwyliedig at ddibenion polisi. Ategodd bod y collfarnau hyn angen eu hystyried wrth ddod i benderfyniad.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais gan roi gwybodaeth am gefndir y pwyntiau cosb ar ei drwydded, cefndir i gollfarn 2007 a'i amgylchiadau personol. Nododd fod digwyddiad 2007 yn gamgymeriad, yn ddigwyddiad hanesyddol, teuluol. Ategodd ei fod yn gweithio fel goruchwyliwr a bod ganddo nifero gyfrifoldebau yn y gymuned leol lle mae angen iddo ymddwyn yn broffesiynol.

**PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS ac adroddiad Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau
- sylwadau ar lafar gan yr ymgeisydd

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol

**Cefndir**

Yn Rhagfyr 2007cafwyd yr ymgeisydd yn euog o ddau gyfrif o ymosodiad oedd yn achosi gwir niwed corfforol (ABH) sydd yn groes i'r Ddeddf Troseddau Corfforol

Yn Medi 2020 derbyniodd gollfarn moduro a 3 pwynt cosb (SP30) am dorri terfyn cyflymder ar ffordd gyhoeddus

Yn Mawrth 2022 derbyniodd gollfarn moduro a 3 pwynt cosb (SP30) am dorri terfyn cyflymder ar ffordd gyhoeddus

**CYMALAU PERTHNASOL Y POLISI**

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol. Mae paragraff 2.4 yn nodi pan fydd

ymgeisydd wedi'i gael yn euog o drosedd(au) neu fod mater arall/materion eraill i'w (h)ystyried yng nghyswllt hynny, ni chaiff y cyngor adolygu rhinweddau'r gollfarn honno na'r mater arall hwnnw.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae paragraff 6.0 o'r Polisi yn cyfarch troseddau o drais. Ym mharagraff 6.1 nodir, gan fod gyrwyr trwyddedig yn dod i gysylltiad agos gyda'r cyhoedd yn rheolaidd y byddai is-bwyllgor yn mabwysiadu safbwynt cadarn at y rhai hynny sydd â throseddau yn ymwneud a thrais.

Mae paragraff 6.5 o'r Polisi yn nodi y bydd cais am drwydded fel rheol yn cael ei wrthod os oes gan yr ymgeisydd fater i'w ystyried am ymosodiad cyffredin a/neu ddifrod troseddol a /neu drosedd o dan Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986 sydd yn llai na 3 blynedd cyn dyddiad y cais.

Mae rhan 13 yn ymwneud a mân droseddau traffig ac yn cyfeirio yn bennaf at droseddau sydd heb eu rhestru ym mharagraff 12.2 o'r Polisi. Ystyriwyd paragraff 13.2 sydd yn amlygu gall un gollfarn am fan drosedd gyrru arwain at wrthod y cais. Nodir ym mharagraff 13.3 y gallai mwy nag un gollfarn am fân drosedd traffig neu fater arall i'w ystyried arwain at wrthod cais, yn enwedig os oes sawl collfarn neu faterion eraill i'w hystyried ar gyfer yr un drosedd, e.e. goryrru

**CASGLIADAU**

Daeth yr Is-bwyllgor i gasgliad bod digwyddiad 2007 yn ymwneud â throsedd o drais gan dderbyn esboniad yr ymgeisydd o'r amgylchiadau a arweiniodd at y gollfarn, sef ffrae deuluol o dan amgylchiadau anodd. Derbyniwyd ei fod yn edifar iawn am yr hyn ddigwyddodd a'i fod yn cydnabod difrifoldeb y drosedd ac wedi bod yn agored a gonest wrth drafod y cais.

Ystyriwyd hefyd argymhelliad y swyddogion y dylid caniatáu y cais. Roedd cyfnod llawer hirach na 3 mlynedd wedi mynd heibio ers y gollfarn ac nid oedd unrhyw drosedd wedi ei chofnodi ar ôl hynny. Ni welai'r Is bwyllgor fod unrhyw reswm dros beidio dilyn darpariaethau'r polisi yn yr achos hwn.

Yng nghyd-destun y collfarnu moduro, atgoffwyd yr ymgeisydd bod ganddo 6 pwynt ar ei drwydded ac iddo gymryd gofal. Byddai collfarn foduro arall yn golygu gwrandawiad pellach.

Penderfynodd yr Is-bwyllgor o blaid caniatáu y cais a bod yr ymgeisydd felly yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd.

Dechreuodd y cyfarfod am 2 :00pm a daeth i ben 2 :45pm

**Yn bresennol**:

**Cynghorwyr:** Y Cynghorydd Annwen Hughes (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Rheinallt Puw ac Arwyn Herald Roberts

**Swyddogion:** Sïon Huws (Uwch Gyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

**5. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr A**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nod o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol, adroddiad yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA) ynghyd a datganiad personol yr ymgeisydd oedd yn rhan o'i ffurflen gais. Adroddwyd nad oedd collfarn ar yr adroddiad

DBS ond bod rhybudd ar y drwydded gyrru o ganlyniad i dderbyn 7 pwynt cosb. Roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell i'r Is-bwyllgor ganiatáu y cais.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais gan roi gwybodaeth am gefndir y pwyntiau cosb ar ei drwydded a'i amgylchiadau personol.

**PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd oedd yn cynnwys datganiad personol
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS ac adroddiad Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau
- sylwadau ar lafar gan yr ymgeisydd

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol

**Cefndir**

Yn Mawrth 2020 derbyniodd yr ymgeisydd 3 pwynt cosb am achosi (neu'n debygol o achosi) perygl oherwydd llwyth heb ei raffu ar gefn lori fechan (CU50)

Yng Ngorffennaf 2020 derbyniodd yr ymgeisydd 4 pwynt cosb am yrru tu hwnt i derfyn cyflymder ar ffordd gyhoeddus (SP30)

**CYMALAU PERTHNASOL Y POLISI**

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol. Mae paragraff 2.4 yn nodi pan fydd ymgeisydd wedi'i gael yn euog o drosedd(au) neu fod mater arall/materion eraill i'w (h)ystyried yng nghyswllt hynny, ni chaiff y cyngor adolygu rhinweddau'r gollfarn honno na'r mater arall hwnnw.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae rhan 13 o'r Polisi yn ymwneud a mân droseddau traffig ac yn cyfeirio yn bennaf at droseddau sydd heb eu rhestru ym mharagraff 12.2 o'r Polisi. Ystyriwyd paragraff 13.3 sydd yn nodi y gallai mwy nag un gollfarn am fân drosedd traffig neu fater arall i'w ystyried arwain at wrthod cais, yn enwedig os oes sawl collfarn neu faterion eraill i'w hystyried ar gyfer yr un drosedd, e.e. goryrru a / neu os oes mwy na dwy drosedd a / neu gyfanswm o 6 phwynt neu fwy ar y drwydded.

**CASGLIADAU**

Daeth yr Is-bwyllgor i gasgliad bod digwyddiadau 2020 yn ymwneud â mân droseddau traffig. Ystyriwyd paragraff 13.2 o'r Polisi, a daethpwyd i farn na ddylai'r troseddau fod yn

sail i wrthod y cais. Derbyniwyd eglurhad llawn a gonest yr ymgeisydd dros y ddau achos a phenderfynwyd, gan nad oedd patrwm i'r troseddau, nac awgrym bod y sefyllfa yn anniogel, y gellid caniatáu y cais. Nid oedd tystiolaeth o droseddu pellach ac roedd yr Is-bwyllgor, yn unol â'r Polisi, yn fodlon bod cyfnod priodol o amser wedi mynd heibio ers y dda ddigwyddiad.

Penderfynodd yr Is-bwyllgor o blaid caniatáu y cais a bod yr ymgeisydd felly yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd.

Dechreuodd y cyfarfod am 2 :00pm a daeth i ben 2 :45pm

## IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 14-11-2022

**Yn bresennol**:

**Cynghorwyr:** Y Cynghorydd Annwen Hughes (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Huw Rowlands ac Elfed Williams

**Swyddogion:** Sïon Huws (Uwch Gyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

**5. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr A**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nod o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau :

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais

yn unol â’r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol. Roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell i’r Is-bwyllgor wrthod y cais.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais gan roi gwybodaeth am gefndir y collfarnau ar ei drwydded a’i amgylchiadau personol.

**PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol :

- Gofynion ‘Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd’
- Ffurflen gais yr ymgeisydd
- Adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a’r datganiad DBS
- Sylwadau ar lafar gan yr ymgeisydd

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i’r materion canlynol

**Cefndir**

Yn Nhachwedd 2011, derbyniodd yr ymgeisydd 3 collfarn :

- defnyddio cerbyd heb yswiriant yn groes i Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988 A143 (2). Cafodd ddirwy o £120 ac arnodiad ar ei drwydded.
- gyrru cerbyd modur gyda gormodedd o alcohol yn groes i Ddeddf Traffig A988 A.5 (1) (A). Cafodd ddirwy o £120 a chostau o £85 a’i wahardd o yrru am 18 mis
- gyrru cerbyd modur heb fod hynny yn unol â thrwydded - na ellid ei ardystio yn groes i Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988 A.87 (1). Cafodd ddirwy o £40, arnodiad ar ei drwydded a chostau ychwanegol o £15.

Yn Hydref 2013 derbyniodd yr ymgeisydd gollfarn am siop ladrata yn groes i Ddeddf Dwyn 1968 A.1 a methu ac ildio i’r ddalfa ar yr amser a nodwyd, yn groes i Ddeddf Mechnïaeth 1976 A.6 (1). Cafodd ddirwy o £50 costau o £100 a chostau ychwanegol o £20.

Yn Mehefin 2014 derbyniodd 3 collfarn am ;

- wrthsefyll neu rwystro Cwnstabl, yn groes i Ddeddf yr Heddlu 1996 A.89 (2). Cafodd ddirwy o £90
- defnyddio cerbyd heb yswiriant, yn groes i Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988 S 143 (2). Cafodd ddirwy o £110, costau o £85, ei wahardd am yrru am 12 mis a chostau ychwanegol o £20
- gyrru heb fod hynny yn unol â thrwydded, yn groes i Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988 A 87(1). Cafodd ddirwy o £50 ac arnodiad ar ei drwydded.

**CYMALAU PERTHNASOL Y POLISI**

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi’r Cyngor lle nodi’r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol. Mae paragraff 2.4 yn nodi pan fydd ymgeisydd wedi'i gael yn euog o drosedd(au) neu fod mater arall/materion eraill i'w (h)ystyried yng nghyswllt hynny, ni chaiff y cyngor adolygu rhinweddau'r gollfarn honno na'r mater arall hwnnw.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Ystyriwyd paragraff 8.0 o'r Polisi sydd yn cyfarch troseddau o anonestrwydd gyda pharagraff 8.1 yn nodi y cymerir golwg ddifrifol ar unrhyw gollfarn sy'n ymwneud ag anonestrwydd. Mae paragraff 8.2 yn nodi bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod os bydd gan yr ymgeisydd gollfarn am drosedd a restrir, a bod y gollfarn yn llai na 3 blynedd cyn dyddiad y cais. Nodwyd bod y rhestr troseddau yn cynnwys, ymhlith eraill, lladrata.

Ystyriwyd paragraff 11.0 sydd yn cyfarch troseddau o yfed a gyrru. Ym mharagraff 11.1 fe nodir y byddai ystyriaeth ddifrifol i gollfarnau am yrru neu fod yn gyfrifol am gerbyd dan ddylanwad alcohol / cyffuriau. Bydd un sydd wedi ei gael yn euog o droseddau yn ymwneud ag yfed a gyrru yn annhebygol o gael trwydded hyd nes iddo fod yn rhydd rhag collfarn(au) o'r fath am 3 blynedd o leiaf. Ymdrinnir yn yr un modd a chollfarn am 'wrthod neu fethu darparu sampl'

Mae rhan 12 o'r Polisi yn ymwneud â chollfarnau moduro gyda pharagraff 12.4 yn nodi y gwrthodir cais fel arfer gan ymgeisydd sydd wedi cyflawni mwy nag un Drosedd Traffig Difrifol, o fewn y 5 mlynedd diwethaf, ac ni ddylid ystyried unrhyw gais pellach hyd nes bod cyfnod o 3 blynedd o leiaf wedi mynd heibio yn rhydd rhag collfarnau o'r fath neu faterion eraill i'w hystyried.

Mae paragraff 16.1 o'r Polisi yn ymwneud ag ail-droseddu. Rhaid yn gyntaf sicrhau bod y collfarnau'n bodloni canllawiau'r polisi yn unigol, ond gyda'i gilydd yn creu hanes o ail-droseddu sydd yn dangos diffyg parch at les eraill ac eiddo. O dan y Polisi rhaid bod 10 mlynedd wedi mynd heibio ers y gollfarn fwyaf diweddar.

**CASGLIADAU**

Daeth yr Is-bwyllgor i gasgliad bod gan yr ymgeisydd nifer o gollfarnau oedd yn bodloni'r meini prawf fel collfarnau unigol ar gyfer caniatáu trwydded, ond bod angen ystyried darpariaethau polisi oedd yn ymwneud ag ail-droseddu a'r disgwyl bod 10 mlynedd wedi mynd heibio ers y gollfarn ddiwethaf.

Ystyriwyd bod y troseddau yn edrych yn rhai difrifol yn enwedig gan eu bod yn ymwneud â gyrru, anonestrwydd a diffyg parch tuag at yr heddlu. Roedd angen felly ystyried yn ofalus os oedd rheswm i gyfiawnhau caniatáu trwydded er nad oedd 10 mlynedd wedi mynd heibio.

Ystyriwyd eglurhad yr ymgeisydd am y troseddau a rhoddwyd cryn bwysau ar y ffaith fod wyth mlynedd a hanner wedi pasio ers derbyn y collfarnau olaf yn 2014. Derbyniwyd bod yr ymgeisydd yn ifanc ar y pryd, bod y digwyddiadau wedi digwydd o fewn cyfnod o dair mlynedd i'w gilydd ac yn dilyn y digwyeddiadau, bu cyfnod o sefydlogrwydd lle na fu troseddu pellach. Roedd hyn, ynghyd â'r ffaith fod ei amgylchiadau personol wedi newid yn sylweddol a bod ganddo gyfrifoldeb dros ddau o blant. O ganlynaid, roedd yr is-bwyllgor o'r farn bod y ffactorau hyn yn cyfiawnhau gwyro oddi wrth y disgwyliad i 10 mlynedd fod wedi pasio.

Wedi pwyso a mesur y wybodaeth yn ofalus daethpwyd i benderfyniad mwyafrifol bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i gael trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat. Serch hynny roedd yr Is-bwyllgor yn pwysleisio bod y cyfrifoldeb o yrru tacsi yn un difrifol a bod disgwyl iddo arddel y safon uchaf o ymddygiad wrth wneud hynny.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd.

**6. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr B**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nod o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau :

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr B am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol ynghyd a thystysgrif diogelu gyrwyr tacsi. Amlygwyd nad oedd wedi datgan bod ganddo gollfarnau blaenorol ar ei ffurflen gais. Roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell i'r Is-bwyllgor wrthod y cais.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais gan roi gwybodaeth am gefndir y ddedfryd, pam nad oedd wedi datgan bod ganddo gollfarnau blaenorol ar ei ffurflen gais a'i amgylchiadau personol. Eglurodd mai 1 mis yn y carchar a wnaeth ac wedyn gwisgo tag gan mai ei ffrind oedd wedi bygwth tyst drwy ddefnyddio ei ffôn. Amlygodd hefyd mai un collfarn / digwyddiad oedd ganddo ac nid collfarnau / digwyddiadau fel y nodwyd yn yr adroddiad. Ymddiheurodd am beidio â datgelu'r drosedd ar ei ffurflen gais gan egluro nad oedd yn dda iawn am lenwi ffurflenni.

**PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:
- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS
- sylwadau ar lafar gan yr ymgeisydd

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol

**Cefndir**

Yn Awst 2008 dyfarnwyd yr ymgeisydd yn euog o fygwth tyst neu reithiwr gyda'r bwriad o rwystro, gwyrdroi neu ymyrryd a chyfiawnder yn groes i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 A.51 (1) lle derbyniodd garchar am 6 mis.

**CYMALAU PERTHNASOL Y POLISI**

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo

fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol.

Mae cymal 2.3 o'r polisi yn nodi y gellir ystyried unrhyw gollfarnau troseddol, neu faterion eraill sy'n ymwneud ag addasrwydd a phriodoldeb yr ymgeisydd. Yn hyn o beth, mae'r drosedd y cafwyd yr ymgeisydd yn euog ohoni yn drosedd ddifrifol iawn; un a oedd yn cyfiawnhau dedfryd o 6 mis o garchar.

Mae paragraff 2.4 yn nodi pan fydd ymgeisydd wedi'i gael yn euog o drosedd(au) neu fod mater arall/materion eraill i'w (h)ystyried yng nghyswllt hynny, ni chaiff y cyngor adolygu rhinweddau'r gollfarn honno na'r mater arall hwnnw.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae paragraff 6.0 o'r Polisi yn cyfarch troseddau o drais. Ym mharagraff 6.1 nodir, gan fod gyrwyr trwyddedig yn dod i gysylltiad agos gyda'r cyhoedd yn rheolaidd y byddai is-bwyllgor yn mabwysiadu safbwynt cadarn at y rhai hynny sydd â throseddau yn ymwneud a thrais.

Mae paragraff 6.5 o'r Polisi yn nodi y bydd cais am drwydded fel rheol yn cael ei wrthod os oes gan yr ymgeisydd fater i'w ystyried am ymosodiad cyffredin a/neu ddifrod troseddol a /neu drosedd o dan Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986 sydd yn llai na 3 blynedd cyn dyddiad y cais.

**CASGLIADAU**

Daeth yr Is-bwyllgor i gasgliad, gan fod 14 mlynedd wedi mynd heibio ers i'r ymgeisydd gael ei ddyfarnu'n euog, bod y trothwy tair blynedd o dan y Polisi yn amlwg wedi mynd heibio. Nid oedd unrhyw gollfarnau blaenorol na chollfarnau dilynol. Er yr eglurhad am y digwyddiad yn 2008, nid oedd yr is-bwyllgor yn hollol eglur beth oedd yr amgylchiadau ond y bu rhaid i'r ymgeisydd dderbyn cyfrifoldeb am roi benthyg ei ffôn i'w ffrind fygwth tyst. Fodd bynnag, gan fod cyfnod o amser digonol wedi mynd heibio ers y drosedd, nid oedd unrhyw resymau cymhellol dros beidio â dilyn canllawiau'r polisi yn yr achos yma.

Penderfynodd yr Is-bwyllgor o blaid caniatáu y cais a bod yr ymgeisydd felly yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat am flwyddyn

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd.

**7. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr C**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nod o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau :

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu

- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr C am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol ac adroddiad Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais gan roi gwybodaeth am gefndir y drosedd amgylcheddol a'i amgylchiadau personol. Mewn ymateb i gwestiwn pam nad oedd manylion y drosedd amgylcheddol wedi ei gynnwys ar y ffurflen gais, nododd cynrychiolydd yr ymgeisydd nad oedd wedi ystyried bod trosedd amgylcheddol yn berthnasol i gais gyrrwr tacsi

**PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol :

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS ac adroddiad Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau
- sylwadau ar lafar gan yr ymgeisydd a'i gynrychiolydd /ddarpar gyflogwr

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol

**Cefndir**

Yng Ngorffennaf 2019 cafwyd yr ymgeisydd yn euog o drosedd o weithredu cyfleuster rheoledig heb drwydded amgylcheddol ; Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2007 Rheoliad38(1) (a).

Yn Medi 2020 derbyniodd yr ymgeisydd 3 pwynt cosb am yrru tu hwnt i derfyn cyflymder ar ffordd gyhoeddus (SP30)

**CYMALAU PERTHNASOL Y POLISI**

Er nad yw'r Polisi'n cyfeirio yn benodol at droseddau sy'n ymwneud â Throseddau Amgylcheddol, bydd troseddau o'r fath yn berthnasol i'w hystyried. Mae pob trosedd a gyflawnwyd gan Unigolyn sy'n dymuno bod yn Yrrwr Tacsi, yn berthnasol ar gyfer ystyried os yw unigolyn yn 'berson addas a phriodol'. Roedd y swyddogion o'r farn bod gweithredu Cyfleuster Rheoledig heb drwydded amgylcheddol yn fater difrifol.

Mae rhan 13 yn ymwneud a mân droseddau traffig ac yn cyfeirio yn bennaf at droseddau sydd heb eu rhestru ym mharagraff 12.2 o'r Polisi. Ystyriwyd paragraff 13.2 sydd yn amlygu gall un gollfarn am fan drosedd gyrru arwain at wrthod y cais.

**CASGLIADAU**

Daeth yr Is-bwyllgor i gasgliad nad oedd y drosedd SP30 yn broblem o ystyried darpariaethau'r polisi - nid oedd y drosedd SP30 yn mynd a chyfanswm yr ymgeisydd dros y cyfyngiad 7 pwynt a nodi'r ym Mholisi Goryrru Cyngor Gwynedd cyn ei fod yn effeithio ar y cais neu gais i adnewyddu Bathodyn Gyrrwr Tacsi.

Er nad oedd y drosedd amgylcheddol y cael ei nodi yn y polisi ystyriodd yr Is-bwyllgor fod dros 3 mlynedd wedi mynd heibio ers y drosedd yn ogystal â'r ffaith nad oedd gan y drosedd gysylltiad gyda gyrru tacsi.

Penderfynodd yr Is-bwyllgor o blaid caniatáu y cais a bod yr ymgeisydd felly yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat am flwyddyn

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd.

Dechreuodd y cyfarfod am 2 :00pm a daeth i ben 4 :30pm

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 08-11-2022**

**Yn bresennol**:

**Cynghorwyr:** Y Cynghorydd Annwen Hughes (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Gareth T Jones ac Edgar Owen

**Swyddogion:** Sïon Huws (Uwch Gyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

1. **YMDDIHEURIADAU**

   Dim i'w nodi

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

3. **MATERION BRYS**

   Dim i'w nodi

4. **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

   **PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

5. **CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr A**

   Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nod o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

   - Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
   - Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
   - Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
   - Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
   - Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
   - Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol ynghyd a thystysgrif feddygol, datganiad personol yr ymgeisydd, geirdaon a thystlythyrau. Roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell i'r Is-bwyllgor wrthod y cais.

Mewn ymateb i gyflwyniad y Rheolwr Trwyddedu, gofynnodd cynrychiolydd yr ymgeisydd i'r Rheolwr Trwyddedu gadarnhau nad oedd y teithiwr yn achos 2019 wedi dioddef unrhyw niwed nac wedi gwneud cwyn ffurfiol i'r Heddlu am ymddygiad y gyrrwr. Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Trwyddedu bod y dystiolaeth wedi cael ei herio yn Llys yr Ynadon ac er nad oedd collfarn roedd y Barnwr wedi penderfynu bod y dystiolaeth yn gredadwy.

Awgrymodd cynrychiolydd yr ymgeisydd bod argraffiadau'r teithiwr yn gwahanol iawn i argraffiadau'r gyrrwr yn nigwyddiad 2019. Mewn ymateb nododd y Rheolwr Trwyddedu, er yn cadarnhau nad oedd gweithrediad pellach gan yr Heddlu, bod recordiad o'r sefyllfa wedi ei gyflwyno o'r noson fel tystiolaeth a bod 'ymddygiad cyffredinol' yn ystyriaeth er nad oedd collfarn.

Mewn ymateb, nododd cynrychiolydd yr ymgeisydd nad oedd rhybudd gan yr Heddlu yn gollfarn, ond mewn ymateb nododd y Rheolwr Trwyddedu bod tystiolaeth o rybudd yn ddigon cryf yn yr achos yma.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar ei gais gan roi gwybodaeth am gefndir y rhybudd ar ei drwydded a'i amgylchiadau personol. Cyflwynwyd 37 o dystlythyrau yn gymysg gan ffrindiau, cydweithwyr, cymdogion a defnyddwyr gwasanaeth. Nododd bod digwyddiad 2018 a 2019 yn rai yr oedd yn edifar a'i fod yn cydnabod ei fod wedi ymddwyn yn ddifrifol. Ar y pryd roedd o dan straen er yn derbyn nad oedd hyn yn esgus am ei ymddygiad. Roedd yn gwerthfawrogi bod rhaid i yrwyr fod yn ddibynadwy a bod yr is-bwyllgor yn chwarae rhan bwysig yn sicrhau hyn.

Rhannodd enghreifftiau o'r gwaith a'r cyfrifoldebau cymunedol roedd wedi ymgymryd â hwy ers y digwyddiadau, oedd yn cynnwys mynychu cwrs ar sicrhau diogelwch i'r cyhoedd. Nododd ei ddymuniad i roi'r gorffennol tu cefn iddo a chanolbwyntio ar symud ymlaen drwy roi blaenoriaeth i'w fusnes a'i deulu. Diolchodd i'w staff am eu cefnogaeth o gario'r busnes drwy gyfnod anodd. Cyfeiriodd at ei waith fel goruchwyliwr teithio trwyddedig i Adran Addysg y Sir. Nododd bod yr adran wedi caniatáu rhoi trwydded goruchwyliwr teithio iddo ac nad oedd cwynion wedi eu derbyn am ei waith. Cyfeiriodd at achos penodol fel enghraifft o'r cyfrifoldebau sydd eu hangen i fod yn oruchwyliwr teithio.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â sut y byddai yn gosod esiampl i'w yrwyr fel cyflogwr a rheoli ei ymddygiad, nododd ei fod wedi gwneud pob ymdrech i wella ei hun ers digwyddiadau 2018 a 2019 a chyda pobl yn talu am ei wasanaeth eu bod yn disgwyl gwell.

Wedi crynhoi ei gais, cynigodd cynrychiolydd yr ymgeisydd i'r is-bwyllgor ystyried, os caniatáu'r cais, i ganiatau trwydded 12 mis fel bod yr ymgeisydd yn cael cyfle i brofi ei hun ac i adeiladu perthynas gyda'r Uned Trwyddedu.

Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Trwyddedu petae'r ymgeisydd yn derbyn trwydded yna, yr un yw'r safon o ddisgwyliad ymhob achos. Ategodd bod hyblygrwydd yn y Ddeddf i ystyrued cyfnod llai na 3 mlynedd.

**PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion ‘Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd’
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a’r datganiad DBS ac adroddiad Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau
- sylwadau ar lafar gan yr ymgeisydd
- Ffurflen feddygol yr ymgeisydd
- Datganiad Personol gan yr ymgeisydd
- Geirdaon / tystlythyrau gan yr ymgeisydd

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i’r materion canlynol

**Cefndir**

Yn Mai 2018, diddymwyd trwydded gyrrwr tacsi deuol hacni/hurio preifat yr ymgeisydd, yn ddi-oed er mwyn diogelu’r cyhoedd; yn unol â darpariaeth adran 61(1) (b) o Ddeddf Llywodraeth Leol ( Darpariaethau Amrywiol) 1976, yn dilyn digwyddiad treisiol. Derbyniodd yr ymgeisydd rybudd gan yr Heddlu am yr ymosodiad cyffredinol oedd yn groes i adran 39 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988

Yn Medi 2018, derbyniwyd cais o’r newydd am drwydded ddeuol gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gan yr ymgeisydd. Cyfeiriwyd y cais at Is Bwyllgor am benderfyniad gydag argymhelliad i wrthod yn unol â pholisi Meini Prawf Addasrwydd ar gyfer Gyrwyr a Gweithredwyr y Cyngor. Penderfynodd yr Is Bwyllgor i ganiatáu’r cais.

Yn Mawrth 2019, diddymwyd trwydded gyrrwr tacsi'r ymgeisydd er mwyn diogelu’r cyhoedd; yn unol â darpariaeth adran 61(1) (b) o Ddeddf Llywodraeth Leol ( Darpariaethau Amrywiol) 1976, yn dilyn ymosodiad corfforol honedig ar gwsmer, Ni dderbyniodd gollfarn am y digwyddiad.

Yng Ngorffennaf 2019, daeth yr ymgeisydd ag apêl o dan adran 52 o’r Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 yn erbyn penderfyniad Swyddog y Gwasanaeth Trwyddedu i ddiddymu ei drwydded ym Mawrth 2019. Yn Llys Ynadon Caernarfon, methodd yn ei achos apêl a cadarnhaodd y barnwr fod y dystiolaeth a ddefnyddiwyd gan y Cyngor i ddod i benderfyniad i ddiddymu’r drwydded gyrru tacsi yn benderfyniad cywir.

Yn Ionawr 2020 derbyniwyd cais arall am drwydded ddeuol gyrrwr hacni/hurio preifat gan yr ymgeisydd. Cyfeiriwyd y cais at Is Bwyllgor yn Chwefror 2020 a phenderfynwyd gwrthod y cais. Yn dilyn y penderfyniad daeth apêl gan yr ymgeisydd, o dan adran 52 o’r Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, yn erbyn y penderfyniad. Mewn gwrandawiad interim yn Medi 2020, penderfynodd y Llys Ynadon bod casgliadau’r apêl gyntaf yn parhau i sefyll fel tystiolaeth ac na fyddai’r ymgeisydd yn cael ail-herio’r materion ffeithiol o gwmpas yr ymosodiadau, gan y byddai hynny’n gyfystyr â chamddefnydd o broses y llys. Yn Rhagfyr 2020 cyflwynodd yr ymgeisydd gais i dynnu ei apêl yn ôl a derbyniodd y Barnwr ei gais.

**CYMALAU PERTHNASOL Y POLISI**

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol. Mae paragraff 2.4 yn nodi pan fydd ymgeisydd wedi'i gael yn euog o drosedd(au) neu fod mater arall/materion eraill i'w (h)ystyried yng nghyswllt hynny, ni chaiff y cyngor adolygu rhinweddau'r gollfarn honno na'r mater arall hwnnw.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae paragraff 6.0 o'r Polisi yn cyfarch troseddau o drais. Ym mharagraff 6.1 nodir, gan fod gyrwyr trwyddedig yn dod i gysylltiad agos gyda'r cyhoedd yn rheolaidd y byddai is-bwyllgor yn mabwysiadu safbwynt cadarn at y rhai hynny sydd â throseddau yn ymwneud a thrais. Mae paragraff 6.2 yn nodi, bod unrhyw un sydd wedi'i gael yn euog o droseddau'n ymwneud â thrais yn annhebygol o gael trwydded hyd nes iddo fod yn rhydd rhag collfarn(au) o'r fath am 3 blynedd o leiaf. Fodd bynnag, o ystyried ystod y troseddau sy'n ymwneud â thrais, rhaid rhoi ystyriaeth i natur y drosedd.

Mae paragraff 6.5 o'r Polisi yn nodi y bydd cais am drwydded fel rheol yn cael ei wrthod os oes gan yr ymgeisydd fater i'w ystyried am ymosodiad cyffredin sydd yn llai na 3 blynedd cyn dyddiad y cais.

Mae paragraff 6.6 o'r Polisi yn nodi y bydd cais, fel arfer yn cael ei wrthod os oes mwy nag un gollfarn am drosedd o natur dreisgar yn erbyn yr ymgeisydd a hynny o fewn y 10 mlynedd ddiwethaf.

**CASGLIADAU**

Daeth yr Is-bwyllgor i gasgliad, yn unol a darpariaethau'r polisi, bod y 3 blynedd gofynnol wedi mynd heibio ers collfarn 2018 a digwyddiad 2019. Wrth ystyried y mater o aildroseddu a chanfod bod y ddau ddigwyddiad o'r un natur, roedd darpariaethau para.6.6 o'r polisi yn berthnasol. Roedd rhaid felly ystyried caniatau y drwydded er nad oedd 10 mlynedd wedi mynd heibio ers y gollfarn ddwieddaraf / mater perthnasol.

Derbyniwyd esboniad yr ymgeisydd a'i resymau dros ei ymddygiad. Roedd yr Is-bwyllgor yn falch o glywed ei fod yn disgyn ar ei fai ac yn cydnabod bod ei ymddygiad yn gwbl annerbyniol, er beth bynnag fo'r amgylchiadau personol, nid oeddynt yn esgus dros ymosodiad 2018. Yn yr un modd, roedd yr Isbwyllgor yn falch bod yr ymgeisydd yn derbyn y dylai fod wedi ymateb yn wahanol i sefyllfa 2019.

Ystyriwyd gwaith yr ymgeisydd fel goruchwyliwr teithwyr trwyddedig sydd â chyfrifoldeb o gynorthwyo gyrwyr tacsi sy'n cludo teithwyr/plant bregus ar gytundebau ysgol Cyngor Gwynedd. Ystyriwyd hefyd ei fod wedi derbyn Trwydded Awdurdod y Diwydiant Diogelwch ac i gwrdd â gofynion y drwydded ei fod wedi ymgymryd ag wythnos lawn o gyrsiau oedd yn

cynnwys rheoli pobl, cymorth cyntaf, sut i wasgaru sefyllfaoedd a allai fod yn ymosodol ac amddiffyn y cyhoedd.

Ystyriwyd enghreifftiau o sefyllfaoedd anodd yr oedd yr ymgeisydd wedi delio â hwy ac na dderbyniwyd cwynion pellach ynghylch a’i ymddygiad. Ystyriwyd hefyd y cynnig y gellid rhoi trwydded am gyfnod cychwynnol o flwyddyn yn hytrach na'r tri arferol.

Argymhelliad Pennaeth Adran yr Amgylchedd oedd i wrthod y cais. Er na fu unrhyw ddigwyddiadau treisgar pellach ers 2019, nid oedd swyddogion yr Uned Drwyddedu yn argyhoeddedig fod yr ymgeisydd wedi dysgu o’r digwyddiadau. Nodwyd mai dim ond 5 mis oedd wedi mynd heibio ers caniatáu trwydded ym mis Hydref 2018 yn dilyn diddymiad o’i drwydded gan yr awdurdod yn gynharach y flwyddyn honno - roedd y ffeithiau hyn yn cefnogi barn y swyddogion ac yn awgrymu tueddiad i aildroseddu.

Wedi pwyso a mesur yr holl gyflwyniadau a thystiolaeth yn ofalus iawn, penderfynodd yr Is-bwyllgor eu bod yn derbyn bod yr ymgeisydd yn cydnabod bod ei ymddygiad wedi bod yn gwbl annerbyniol a'i fod yn wirioneddol edifarhau. Roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd o’r camau cadarnhaol yr oedd yr ymgeisydd wedi eu cymryd, megis cwrs y Diwydiant Diogelwch, o blaid ei gais.

O dderbyn pleidlais fwyafrifol, penderfynodd yr Is-bwyllgor ganiatáu y cais a bod yr ymgeisydd felly yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat. Fodd bynnag, derbyniwyd y cynnig i ganiatáu’r drwydded am flwyddyn yn unig gan bwysleisio bod safon yr ymddygiad a ddisgwylir yn union yr un fath â thrwydded tair blynedd.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai’r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i’r ymgeisydd.

Dechreuodd y cyfarfod am 10 :00am a daeth i ben 12 :05pm

| PWYLLGOR | PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL |
|---|---|
| DYDDIAD: | 12 Mehefin 2023 |
| TEITL: | FFIOEDD ARFAETHEDIG TRWYDDEDAU TACSIS 2023/24 |
| PWRPAS: | CYMERADWYO FFIOEDD ARFAETHEDIG AR GYFER YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS |
| AWDUR: | PENNAETH YR ADRAN AMGYLCHEDD |

**1.0 GWYBODAETH GEFNDIROL**

1.1 Mae'n ofynnol i'r Cyngor adolygu ei ffioedd mewn perthynas â Thrwyddedu tacsis (h.y. trwyddedau cerbydau hacni, cerbydau hurio preifat, gweithredwyr hurio preifat a gyrwyr) yn rheolaidd. Penderfynodd y Pwyllgor hwn yn ôl yn 2013 y byddai ffioedd tacsi yn cael eu hadolygu yn flynyddol.

1.2 Mae Adran 53 a 70 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 yn darparu y caiff y ffioedd eu codi ar lefel ddigonol i dalu costau rhesymol -

- I ganiatáu trwydded gyrrwr ar gyfer cerbyd hacni neu hurio preifat – costau ynghlwm â phrosesu, gweinyddu a rhoddi trwyddedau.
- I ganiatáu trwydded cerbyd a gweithredwr - costau archwilio, arosfa cerbyd hacni, rhybuddion cyhoeddus, rheoli a goruchwylio cerbydau ac unrhyw gostau eraill ynghlwm â phrosesu cais.

1.3 Rhaid i'r ffioedd a godir fod yn rhesymol a phenderfyniad y Cyngor yw p'un a yw'r ffioedd yn cael eu gosod ar lefel i alluogi adennill costau'n llawn neu'n rhannol, ai peidio **Penderfynodd y Pwyllgor hwn yn 2013 fod yn rhaid i ffioedd Trwyddedu tacsi gael eu hadolygu i adennill costau'n llawn.**

1.4 Cynyddwyd ffioedd tacsi gan 25% yn 2013 a 19.78% , a 10.78% yn 2015 er mwyn adennill y costau'n llawn. Ni chynyddwyd y ffioedd o gwbl yn 2016/17 nac ychwaith yn 2017/18, ac fe gytunwyd i godi'r ffioedd ar gyfartaledd o 28% ar draws yr amrywiol ffioedd trwyddedau tacsi ar gyfer 2018/19.

1.5 Fe gyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor hwn mis Mawrth 2021 gyda argymhelliad i godi ffioedd tacsi i gyd yn unol a chyfradd chwyddiant yn unig ar y pryd , sef 2.59%. Fe adolygwyd y ffioedd ar y pryd ac er nad oedd cynnydd o 2.59% yn ddigonol i adennill costau'r Cyngor o weinyddu a phrosesu trwyddedau Tacsi roedd yr Awdurdod Trwyddedu o'r farn fod y diwydiant tacsi wedi wynebu colledion sylweddol yn ystod cyfnodau clo argyfwng covid; ac felly penderfynwyd peidio argymell adennill costau yn llawn. Am y rhesymau hyn, fe benderfynodd y Pwyllgor hwn ar y 15fed o Fawrth 2021 i beidio a chodi ffioedd trwyddedau tacsi o gwbwl tu hwnt i'r lefel a osodwyd yn 2018/19.

**2 EFFAITH Y CYNNYDD MEWN COSTAU BYW**

2.1 Mae sawl ffactor rhyngwladol a rhai ffactorau unigryw i'r DU wedi cael effaith negyddol ar yr economi , gyda canlyniad fod cynnydd sylweddol wedi bod mewn costau byw. Mae'r gyfradd chwyddiant, sydd ar hyn o bryd yn 8.7%, wedi cynyddu yn sylweddol dros y 18 diwethaf ac mae hyn yn cael effaith negyddol ar ein dinasyddion, busnesau tacsi ac hefyd yn rhoi pwysau ar ddarpariaeth gwasanaethau'r Cyngor.

2.2 Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod fod costau cynnal a chadw cerbydau, costau yswiriant a chostau Tanwydd wedi bod yn cynyddu dros yr18 mis diwethaf, ac fod y sefyllfa wedi bod yn anodd i'r diwydiant tacsi wrth ddod allan o effeithiau y Pandemig covid byd-eang.

2.3 Mae yna arwyddion er hynny fod pris tanwydd yn sefydlogi ac yn gostwng rhywfaint ac mae'n bwysig fod yr awdurdod trwyddedu yn cymeryd y ffactorau hyn oll i ystyriaeth.

**3. ASESIAD ARIANNOL & CYNNIG AR GYFER 2023 - 24**

3.1 Nid yw'r ffioedd wedi eu newid ers 2019. Fe benderfynwyd cadw'r ffioedd yr un fath ar gyfer 2020/21 pan adolygwyd y sefyllfa ym Mawrth 2020; gan fod effeithiau'r pandemig Covid ar y diwydiant yn cael eu hamlygu bryd hynny. Fe benderfynodd y Pwyllgor hwn beidio derbyn yr argymhelliad i gynyddu ffioedd i lefel oedd yn gyfystyr i lefel chwyddiant ar y pryd yn 2021.

3.2 Fel mae aelodau'r Pwyllgor hwn yn ymwybodol, mae'r cynnydd sylweddol sydd wedi bod mewn chwyddiant wedi gadael diffyg ariannol sylweddol yng nghoffrau cyllidol y Cyngor; ac mae'r gwasanaeth trwyddedu fel pob un o wasanaethau eraill y cyngor wedi gorfod dod o hyd i opsiynau er mwyn gwireddu arbedion a thoriadau sylweddol i gyllidebau yn ddiweddar.

3.3 Mae'r tim trwyddedu yn un bychan iawn ; ac er mwyn arbed swyddi a'n galluogi i ddarparu yr un lefel o wasanaeth drwy adennill gwir gostau darpariaeth gwasanaeth trwyddedu tacsis - mae'r Cabinet wedi pleidleisio i ganiatáu 'r Uned Drwyddedu i fynd ati i adennill costau yn llawn .

3.4 Rhaid cofio wrth gwrs , fel y nodwyd eisoes; na ellir cynyddu ffioedd tacsi er pwrpas cynyddu incwm; dim ond er pwrpas adennill costau derbyn, prosesu a gweinyddu trwyddedau.

3.4 Nid chwyddiant yn unig sydd wedi cynyddu costau darparu'r gwasanaeth trwyddedu tacsis. Mae ffactorau fel anghenion hyfforddiant swyddogion, costau hysbysebu ac ymgynghori ar newidiadau i'r prisiau , a chynnydd yn y lefel gwiriadau sydd angen eu gwneud i sicrhau addasrwydd gyrwyr, cerbydau a gweithredwyr.

3.5 Mae newidiadau ar y gorwel , megis cwblhau'r adolygiad y Polisi Tacsi Unedig, fydd yn mabwysiadu argymhellion Safonau Statudol Cerbydau Hacni a Hurio Preifat Cenedlaethol yr Adran Drafnidiaeth; yn ogystal ac ymgorffori y newidiadau pellgyrhaeddol arfaethedig fydd yn debygol o ddeillio o ymgynghoriad Papur Gwyn Llywodraeth Cymru ar sut mae'r diwydiant tacsi yn cael ei reoleiddio.

3.5 O ystyried y r oll o'r ffactorau a nodir, credir nad oes fawr o ddewis ond cynyddu'r ffioedd os am gynnal y gwasanaeth a ddisgwylir gan y cyhoedd a'r diwydiant.

3.6 Mae'r diffyg yn yr incwm a geir am y wahanol drwyddedau tacsi yn amrywio ; yn ddibynnol ar yr ymdrech ychwanegol sydd yn digwydd wrth brosesu ceisiadau a gwirio cydymffurfiad . Mae'r lefel ffioedd a argymhellir er mwyn adennill costau ar gyfartaledd yn golygu cynnydd o 12%. Gweler y tabl amgaeedig am fanylion y ffioedd arfaethedig.

3.2 TABL O FFIOEDD CYFREDOL AC ARFAETHEDIG

| ffioedd arfaethedig tacsis | ffi gyfredol £ | Ffi arfaethedig £ 2023/24 |
|---|---|---|
| | | |
| trwydded gyrrwr blwyddyn | 233 | 254 |
| trwydded gyrrwr 3 | 270 | 353 |
| | | |
| trwydded cerbyd HACNI newydd | 232* | 259 |
| trwydded cerbyd HACNI adnewyddu | 197* | 213 |
| Ffi trosglwyddo trwydded CH i berchennog newydd | 75 | 75 |
| Trwydded HP newydd | 268* | 295 |
| Trwydded HP adnewyddu | 197* | 213 |
| Ffi trosglwyddo trwydded HP i berchennog newydd | 75 | 75 |
| Trwydded gweithredwr 1 blwyddyn | 236 | 257 |
| trwydded gweithredwr 3 mlynedd | 275 | 300 |
| trwydded gweithredwr 5 mlynedd | 329 | 358 |

*Cyfanswm yn cynnwys platiau tu mewn a thu allan (hacni a hurio preifat), a sticer (hurio preifat)

4. **<u>YMGYNGHORI Â'R DIWYDIANT</u>**

4.1 Unwaith y bydd y Pwyllgor hwn yn gwneud penderfyniad ar y ffioedd arfaethedig bydd ymgynghoriad cyhoeddus llawn yn cychwyn yn unol â'r gofynion statudol.

4.2 Mae Adran 70 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 yn datgan bod yn ofynnol i rybudd cyhoeddus o newidiadau arfaethedig i ffioedd ymddangos yn y wasg leol. Mae amserlen benodol ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus; ac ni fydd unrhyw newidiadau arfaethedig yn dod i rym hyd nes y bydd unrhyw ymateb i'r ymgynghoriad ffurfiol wedi ei ystyried yn ddiweddarach gan y Pwyllgor hwn. Fe fydd ymgynghoriad uniongyrchol drwy lythyr yn digwydd cyn y dyddiad y bydd y rhybudd yn ymddangos yn y wasg leol ; er mwyn caniatáu digon o gyfle i'r diwydiant amlygu unrhyw bryderon.

4.3 Fe fydd y rhybudd yn y wasg yn cynnwys y dyddiad pan fydd y ffioedd yn dod yn weithredol, 28 diwrnod ar ôl dyddiad y rhybudd ar yr amod na cheir gwrthwynebiadau i'r ffioedd. Bydd rhaid i unrhyw wrthwynebiadau i'r ffioedd gael eu hystyried gan y Pwyllgor hwn yn ystod ei gyfarfod nesaf mis Medi 2023, a rhaid gwneud penderfyniad ar lefel y ffioedd yn unol â hynny. Ni fydd ffioedd newydd yn dod yn weithredol hyd oni geir penderfyniad terfynol gan y Pwyllgor hwn

**ARGYMHELLIAD**

Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r cynnig i godi’r ffioedd i’r lefel a argymhellir ; yn ddarostyngedig i ymgynghoriad gyda’r diwydiant tacsi ac ymgynghoriad drwy rybudd cyhoeddus.